

Arolygiad Dilynol (Dirybudd) Gwasanaeth Iechyd Meddwl

**Bryn y Neuadd, Uned Tŷ
Llywelyn, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Dyddiad Arolygu: 5 – 7 Rhagfyr 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Mawrth 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	4
3.	Crynodeb	5
4.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd profiad y claf	7
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
5.	Y camau nesaf	19
6.	Methodoleg	20
	Atodiad A.....	22

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dilynol dirybudd o Uned Tŷ Llywelyn yn Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rhwng 5 a 7 Rhagfyr 2016. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Gwion
- Branwen
- Pwyll.

Ymchwiliodd AGIC i sut roedd Tŷ Llywelyn yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Tŷ Llywelyn yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd. Mae'n uned iechyd meddwl diogelwch canolig i oedolion ac mae wedi ei hadeiladu i bwrpas gyda 25 o welyau ar gyfer asesu a thrin/adsefydlu cleifion gwrywaidd dros 18 oed.

Ceir tair ward yn yr uned:

- Gwion: Ward gofal dwys seiciatrig gyda phum gwely sy'n cynnwys ystafelloedd gofal dwys
- Branwen: Ward asesu a thriniaeth gyda 10 gwely
- Pwyll: Ward adsefydlu/cyn-rhyddhau gyda 10 gwely.

Roedd ward Gwion wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar ac roedd ar gau ar adeg yr arolygiad am resymau gweithredol. Fodd bynnag, gellid defnyddio'r ystafelloedd gofal dwys ar gyfer claf a oedd ag angen cymorth ychwanegol i ffwrdd oddi wrth y cleifion eraill yn yr uned.

3. Crynodeb

Prif bwrpas yr arolygiad hwn oedd dilyn cynnydd y bwrdd iechyd o ran mynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn ein harolygiad diwethaf yn 2014.¹ Er i ni ganfod bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud, roedd nifer o feysydd a oedd angen eu gwella o hyd.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus gyda'u gofal a bod y staff yn garedig tuag atynt
- Gwnaethom arsylwi ar ryngweithio gofalgar a chadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion
- Canfuom fod y staff yn ystyried ac yn hyrwyddo preifatrwydd cleifion
- Gwnaethom adolygu cynllun gofal a thriniaeth claf ac roedd yn llawn gwybodaeth ac yn fanwl
- Roedd y staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu swyddi a'u datblygiad proffesiynol
- Roedd staff ar bob lefel wedi ymgysylltu'n llwyr â'r broses arolygu.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y trefniadau ar gyfer mynediad gan gleifion at feddyg teulu
- Darparu therapi galwedigaethol i alluogi cynnal gweithgareddau oddi ar y ward a gweithgareddau cymunedol
- Cwblhau a threfnu dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a chynlluniau gofal a thriniaeth

¹ Arolygiad o Uned Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan ar 4, 5 a 6 Tachwedd 2014 <http://gov.wales/docs/hiw/inspectionreports/Bryn%20y%20Neuadd%20-%20Ty%20Llywelyn%20-%20Inspection%20-%20November%202014%20-%20Management%20Letter.pdf>

- Y golau allanol yn yr ardd y tu allan i ward Pwyll er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion
- Mynediad at ystafelloedd gofal dwys yn yr uned i hyrwyddo diogelwch y cleifion a'r staff
- Monitro a thymheredd ystafelloedd clinig i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd cywir
- Systemau llywodraethu i hyrwyddo canfod ac uwchgyfeirio unrhyw faterion ansawdd a diogelwch a nodir yn brydlon.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i siarad â ni a derbyniodd dau ohonynt y gwahoddiad. Ar y cyfan, nododd y ddau glaf eu bod yn hapus gyda'u gofal a bod y staff wedi bod yn garedig tuag atynt.

Cadw'n iach

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwnaethom nodi bod angen gwella mynediad gan gleifion at wasanaethau meddyg teulu. Dangosodd gwybodaeth a ddarparwyd gan uwch reolwyr yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn nad oedd hyn wedi cael ei ddatrys yn llawn. Dywedwyd hynny wrthym a bod gwaith yn mynd rhagddo i wneud gwelliannau yn hyn o beth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn rhoi diweddariad i AGIC am fynediad cleifion at wasanaethau meddyg teulu. Yn y cyfamser, rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu i sicrhau y gall cleifion fynd at feddyg teulu pan fydd angen.

Amgylchedd y ward

Roedd tair ward yn yr uned, pob un ohonynt ar lawr daear yr adeilad. Yn ystod taith o gwmpas yr uned, canfuom fod y wardiau'n lân ac yn dachus yn gyffredinol. Gan fod ward Gwion ar gau am resymau gweithredol, canolbwyntiodd ein harolygiad ar ward Branwen a ward Pwyll.

Gwelsom fod y dodrefn ac addurniad ward Branwen a ward Pwyll mewn cyflwr addas. Dywedodd uwch staff wrthym fod cleifion wedi bod yn rhan o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ailaddurno'r ddwy ward. Gwelsom fod angen rhywfaint o waith cynnal a chadw/atgyweirio. Gwnaethom nodi'r canlynol yn benodol:

- Ffenest wedi torri ar ward Branwen, yr oedd bwrdd pren wedi cael ei osod yn ei lle dros dro. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi tynnu sylw'r adran ystadau at y ffenest ym mis Hydref 2016 ond nad oedd wedi cael ei hatgyweirio.
- Toiled wedi'i flocio ar ward Pwyll. Dywedwyd wrthym nad oedd hwn wedi cael ei ddefnyddio am sawl diwrnod.

Roedd staff y ward yn ymwybodol o'r materion hyn a chadarnhawyd bod adran ystadau'r ysbyty wedi cael ei hysbysu amdanynt er mwyn eu hatgyweirio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn cadarnhau pa drefniadau a wnaed i gwblhau'r gwaith atgyweirio nad oedd wedi cael ei gyflawni ar ward Branwen a ward Pwyll yn foddhaol.

Dywedwyd wrthym fod ward Gwion wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar. Roedd yr unig ystafelloedd gofal dwys yn Nhŷ Llywelyn yn ward Gwion. Er bod y ward ar gau, dywedwyd wrthym y gellid defnyddio'r ystafelloedd gofal dwys pan oedd angen. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleusterau priodol i alluogi staff i arsylwi wrth helpu i gynnal diogelwch cleifion. Gwnaethom sylwi, fodd bynnag, bod y ward yn teimlo'n oer a chadarnhaodd y staff fod y gwres wedi cael ei ddiffodd. Roedd hyn yn golygu y gallai'r tymheredd fod wedi bod yn anghyfforddus i unrhyw gleifion a oedd angen defnyddio'r ystafelloedd gofal dwys. Gwnaethom hysbysu uwch staff yr ysbyty am ein canfyddiadau a chawsom ein sicrhau bod cais wedi cael ei wneud i danio'r gwres unwaith eto.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn cadarnhau pa drefniadau sydd wedi cael eu gwneud i sicrhau bod tymheredd ward Gwion yn gyfforddus i gleifion bob amser.

Preifatrwydd ac urddas

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn parchu eu preifatrwydd ac yn eu trin ag urddas a pharch. Drwy gydol yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd gofalgarg a pharchus.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain ac roeddent yn gallu eu personoli gyda'u heiddo eu hunain. Roedd yr uned ar gyfer un rhyw yn unig. Roedd un ystafell wely â chyfleusterau en suite ymysg cyfanswm y gwelyau ar bob ward. Dywedwyd wrthym y byddai'r ystafell hon yn cael ei dyrannu ar sail asesiad o anghenion unigolyn. Roedd gan y cleifion eraill ar bob ward fynediad at gyfleusterau ymolchi a thoiled a oedd yn cael eu rhannu.

Roedd panel arsylwi (ffenestr) ar ddrws pob ystafell wely. Ar ward Pwyll, dywedodd y staff wrthym fod staff weithiau'n amharu ar y cleifion trwy agor a

chau'r paneli wrth gynnal arsylwadau. Dywedodd staff y ward wrthym eu bod wedi cytuno â'r cleifion i gadw eu paneli arsylwi ar agor ac i osod llenni preifatrwydd dros y paneli y tu allan i ystafelloedd y cleifion. Roedd hyn yn galluogi staff i wirio cleifion yn ystod y nos heb amharu arnynt yn ddiangen. Gwnaethom ystyried bod hyn yn arfer nodedig gan fod y staff wedi ystyried preifatrwydd ac urddas y cleifion ac wedi cynnwys y cleifion wrth ddatrys y broblem.

Roedd ystafell ymwelwyr o fewn yr uned er mwyn i gleifion gwrdd â theulu a ffrindiau i ffwrdd o'r wardiau. Roedd trefniadau ar waith i gleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd tîm therapi galwedigaethol penodedig yn ymwneud â Thŷ Llywelyn, yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau gyda chleifion i ffwrdd o'r wardiau. Dywedodd y staff wrthym, oherwydd diffyg staff o fewn y tîm, fod staff y ward wedi bod yn rhoi cymorth i'r tîm therapi galwedigaethol gyda rhai gweithgareddau a sesiynau. Dywedodd y staff wrthym na allai cleifion gymryd rhan bob amser mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio oherwydd bod angen i'r staff eu hebrwng. Mae hyn yn golygu y gall rhai cleifion fod yn siomedig oherwydd nad oes ganddynt fynediad at weithgareddau. Fodd bynnag, nid oedd sylwadau a gawsom gan gleifion y buom yn siarad â nhw'n awgrymu bod hyn wedi achosi problem sylweddol iddynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r ddarpariaeth therapi galwedigaethol bresennol i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer gweithgareddau oddi ar y ward, gan gynnwys absenoldeb cymunedol penodedig.

Bwyd a maetheg

Gwnaethom ystyried safon y bwyd yn dilyn y sylwadau negyddol a dderbyniwyd gennym yn ein harolygiad blaenorol.

Gwnaethom siarad â dau glaf yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd sylwadau am ansawdd y bwyd yn gymysg. Roedd un claf yn hapus gydag ansawdd y prydau bwyd ond dywedodd y byddai'n hoffi cael dognau mwy. Soniodd y claf arall yn benodol am y ffaith nad oedd prydau oedd yn cael eu harchebu oddi ar y fwydlen bob tro'n cael eu darparu ac nad oedd prydau eraill addas yn cael eu cynnig yn eu lle.

Gwnaethom rannu'r adborth hwn gydag uwch staff yr ysbyty, a esboniodd fod timau wardiau wedi gweithio'n agos gyda staff arlwyio i wella ansawdd a maint prydau bwyd. Fodd bynnag, yng ngoleuni ein canfyddiadau, cawsom sicrwydd ganddynt y byddent yn edrych ar y mater hwn eto.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn darparu dewis addas o brydau bwyd yn unol ag anghenion a dewisiadau cleifion.

Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod diodydd a byrbrydau ar gael yn ystod y dydd. Gwnaethant hefyd gadarnhau bod cleifion yn cael cymorth gan staff i baratoi prydau yng nghegin y ward ac y gallai cleifion ddewis cael pryd tîc-awe bob wythnos.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl²

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pump o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal yn y ddwy ward ar adeg ein harolygiad. Canfuom y canlynol:

- Roedd y dogfennau yn ffeil Deddf Iechyd Meddwl a ffeil ward un o'r cleifion yn drefnus.
- Roedd angen gwella'r ffeiliau eraill a adolygwyd gennym i sicrhau bod y dogfennau'n gyflawn ac wedi eu trefnu'n dda.
- Roedd yn anodd canfod llwybr archwilio rhwng ffeiliau Ddeddf Iechyd Meddwl a ffeiliau ward ac nid oedd y ddau gasgliad o ffeiliau'n cyd-fynd rhyw lawer.
- Roedd dogfennau Absenoldeb Adran 17 yn gynhwysfawr ac yn gyflawn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella'r dogfennau yn ffeiliau Deddf Iechyd Meddwl cleifion i sicrhau eu bod yn gyflawn, wedi eu trefnu'n dda ac yn cyd-fynd â dogfennau yn ffeiliau wardiau'r cleifion.

Gwelsom fod copïau o *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru (Diwygiedig 2016)* ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wardiau. Fodd bynnag, nid oedd rhai aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol bod y rhain ar gael. Dywedwyd wrthym fod sesiynau ymwybyddiaeth o'r cod diwygiedig wedi cael eu darparu a bod sesiynau pellach yn cael eu trefnu. Mae angen i'r bwrdd iechyd barhau gyda threfniadau i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o'r fath.

² Cyflwynwyd y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) i amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed oherwydd eu hiechyd meddwl. Mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i orfodi derbyniad unigolyn i'r ysbyty, gan ei amddifadu o'i ryddid, a bod hynny er lles yr unigolyn hwnnw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn rhoi diweddariad i AGIC ynglŷn â chynnydd wrth gefnogi staff i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Cod Ymarfer diwygiedig.

Yn ogystal, mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl i adlewyrchu'r cod diwygiedig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl i adlewyrchu'r cod diwygiedig.

Gwnaethom nodi bod cyfleoedd i wella cyfathrebu a chydweithio rhwng gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl a thimau ar y wardiau. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ymchwilio i sut y gellir datblygu swyddogaethau clerod wardiau ac ysgrifenyddion meddygol i wneud gwelliannau mewn perthynas â hyn.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl³

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwnaethom nodi bod angen gwella dogfennau gofal y cleifion. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal pedwar claf ar ward Branwen a ward Pwyll a chanfuom y canlynol:

- Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth ar ward Pwyll yn fanwl iawn ac roeddent yn nodi camau gweithredu mesuradwy a chryfderau cleifion yn glir.
- Ar y cyfan, nid oedd digon o fanylion yng nghynlluniau gofal a thriniaeth ward Branwen ac nid oeddent yn canolbwyntio ar gryfderau ac anghenion adsefydlu cleifion. Nid oedd y cynlluniau'n nodi anghenion cleifion nad oeddent wedi cael eu bodloni ychwaith.
- Gwelsom fod un claf wedi bod yn destun tawelu cyflym.⁴ Nid oedd y cynlluniau gofal yn dangos bod y staff wedi dilyn *Protocol Tawelu Cyflym* y bwrdd iechyd yn gywir o ran arsylwadau corfforol.

³ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Er efallai bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r dogfennau cwblhau gofal ers ein harolygiad blaenorol, nid oedd ein canfyddiadau'n dangos bod y gwelliannau hyn wedi cael eu cynnal yn barhaus.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn ddigon manwl.

Mae hefyd yn ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol a'u bod yn cadw atynt.

Gofal diogel

Golau allanol

Roedd gan gleifion ar bob ward fynediad at ardaloedd gardd/iard diogel yn yr awyr agored. Gwelsom, fodd bynnag, nad oedd digon o olau allanol yn gweithio yn yr ardd ar gyfer ward Pwyll. Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at fflachlampau. Fodd bynnag, o ystyried maint yr ardd, mae'n annhebygol y byddai'r rhain yn darparu digon o olau dros ardal fwy. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd i staff weld cleifion sydd wedi cwmpo a gall hefyd arwain at oedi wrth ganfod cleifion sydd mewn perygl. Gwnaethom hysbysu uwch staff yr ysbyty am ein canfyddiadau ac roeddent wedi hysbysu'r adran ystadau cyn diwedd ein harolygiad er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn gwella golau allanol yng ngardd ward Pwyll i alluogi staff i weld cleifion yn rhwydd.

Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys gwella'r goleuadau ar gyfer llwybrau gadael adeilad mewn tân.

Clychau galw

⁴ Mae tawelu cyflym yn cyfeirio at y defnydd o feddyginiaeth i dawelu a/neu lonyddu unigolyn yn ysgafn er mwyn lleihau perygl o niwed i'r hunan a/neu eraill ac i leihau cynhyrriad ac ymddygiad ymosodol.

Dywedodd y staff wrthym mai dim ond yn yr ystafelloedd gyda chyfleusterau en suite y ceir clychau galw i gleifion alw am gymorth gan staff. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniant hwn i sicrhau y gall cleifion alw am gymorth gan staff o'u hystafelloedd gwely ble y bo angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r trefniadau i gleifion alw am gymorth os bydd angen pan fyddant yn eu hystafelloedd gwely.

Diogelwch tân

Gwnaethom sylwi nad oedd y drysau tân ar y ward yn agor yn awtomatig pan oedd y larwm tân yn canu. Yn hytrach, roedd aelod o staff yn gorfod agor y drws. Cawsom ein sicrhau gan staff y ward bod pob aelod o staff ar ddyletswydd yn cario allwedd bob amser er mwyn gallu agor yr allanfeydd tân mewn argyfwng.

Gwelsom fod un o'r llwybrau gadael adeilad mewn tân o ward Pwyll yn arwain i'r ardd, yr ydym eisoes wedi nodi nad yw'n cael ei goleuo'n ddigonol. Gallai hyn fod yn beryglus mewn achos o dân yn y nos. Roedd swyddog diogelwch tân y bwrdd iechyd yn cynnal archwiliad diogelwch tân ar adeg ein harolygiad ac roedd hefyd wedi nodi bod hyn yn peri perygl posibl. Cawsom sicrwydd ar lafar gan y swyddog diogelwch tân y byddai camau'n cael eu cymryd i unioni hyn. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd drefnu i wella'r goleuadau allanol yng ngardd ward Pwyll ac mae angen i'r gwaith hwn ystyried goleuo unrhyw lwybrau gadael adeilad.

Diogelwch cyllyll a ffyrc/gwrthrychau miniog

Dywedodd staff wrthym er mwyn hyrwyddo diogelwch y cleifion a'r staff fod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw pan oedd cyllyll a ffyrc yn cael eu cymryd o'r drôr y gellir ei gloi y maent yn cael eu cadw ynddo. Roedd y cofnod hwn yn cael ei gwblhau gan staff pan oedd cyllyll a ffyrc yn cael eu cymryd neu eu dychwelyd. Fodd bynnag, ar ward Pwyll gwelsom nad oedd cofnod bob tro i ddangos bod cyllyll a ffyrc wedi cael eu dychwelyd. Felly ni allai staff y ward y gwnaethom siarad â nhw roi sicrwydd bod y cyllyll a ffyrc i gyd yn cael eu cadw yn y drôr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod staff yn gwybod lle yn union mae'r cyllyll a ffyrc sy'n cael eu defnyddio ar y wardiau.

Ystafelloedd gofal dwys

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd ystafelloedd gofal dwys yn ward Gwion. Nid oedd ystafelloedd gofal dwys yn ward Branwen a ward Pwyll. Roedd hyn yn golygu pe byddai unrhyw gleifion angen gofal a chymorth ychwanegol mewn ystafelloedd gofal dwys y byddai angen i staff eu hebrwng yn ddiogel i ward Gwion. Gallai hyn beri risgiau i ddiogelwch staff a chleifion oherwydd y posibilrwydd o orfod perfformio gweithdrefn atal (claf) hirfaith a byddai angen i staff adael y ward i hebrwng claf. Gwnaethom drafod ein canfyddiadau ag uwch staff yr ysbyty, a gytunodd i ymchwilio i'r trefniadau hyn ymhellach i hyrwyddo diogelwch y cleifion a'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau ystafelloedd gofal dwys yn Nhŷ Llywelyn i hyrwyddo diogelwch cleifion a staff.

Ystafelloedd clinigol a rheoli meddyginiaeth

Canfuom fod yr ystafelloedd meddyginiaeth/clinig ar wardiau Pwyll a Branwen yn gynnes iawn. Cadarnhaodd staff y ward nad oedd tymheredd yr ystafelloedd yn cael ei wirio a'i gofnodi. Roedd hyn yn golygu efallai bod meddyginiaethau wedi cael eu storio ar dymheredd uwch na'r hyn a argymhellir gan y gwneuthurwr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn storio meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr uned ar dymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr ac i gadw cofnodion addas i ddangos hyn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Tŷ Llywelyn yn uned iechyd meddwl diogelwch canolig ac mae un o'r wardiau'n darparu gofal adsefydlu/cyn-rhyddhau i gleifion. Er bod gofal cleifion yn cael ei reoli, dywedodd uwch staff wrthym fod heriau wrth gael lleoliadau priodol i gleifion a allai barhau gyda'u gofal mewn unedau iechyd meddwl diogelwch isel, llai cyfyngedig. Roedd angen i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddarpariaeth iechyd meddwl bresennol er mwyn i gleifion allu parhau eu gofal yn y math o amgylchedd sydd fwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion gofal a thriniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu darpariaeth ei wasanaethau iechyd meddwl er mwyn i gleifion dderbyn gofal yn y math o wasanaeth sydd fwyaf addas ar eu cyfer yn unol â'u hanghenion gofal.

Roedd rhai o'n canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn dangos gwendid posibl yn systemau llywodraethu'r bwrdd iechyd wrth ganfod neu uwchgyfeirio materion ansawdd a diogelwch: er enghraifft, ein canfyddiadau am yr amgylchedd, cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a dogfennau gofal cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu ei systemau llywodraethu i sicrhau bod materion ansawdd a diogelwch yn cael eu canfod a'u huwchgyfeirio'n brydlon er mwyn iddynt gael sylw ar unwaith.

Yn ystod ein harolygiad, roedd uwch reolwyr a staff yn fodlon derbyn ein sylwadau. Gwnaethant ddangos eu bod yn ymroddedig i ddysgu o'r arolygiad ac i wneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Staff ac adnoddau

Yn gyffredinol, canfuom fod lefelau staffio a chymysgedd sgiliau timau'r wardiau'n ddigonol i sicrhau diogelwch cleifion. Dywedwyd wrthym ers ein harolygiad blaenorol fod lefelau staffio wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod digon o nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd cleifion weithiau'n gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau oedd wedi cael eu cynllunio ar eu cyfer. Roedd hyn oherwydd nad oedd staff y ward

yn gallu cefnogi staff therapi galwedigaethol gyda gweithgareddau oddi ar y ward.

Roedd yn amlwg o'n sgysiau ag aelodau'r tîm amlddisgyblaeth ac uwch staff bod y gwaith o recriwtio staff yn heriol. Dywedwyd wrthym fod nifer o swyddi gwag yn bodoli ar draws y timau gofal iechyd. Roedd uwch staff yn ymwybodol o'r sefyllfa a dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n ceisio recriwtio staff i swyddi gwag. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i wahanol strategaethau i hwyluso'r gwaith o recriwtio staff er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn parhau i gael eu diwallu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn ymchwilio i wahanol strategaethau i hwyluso'r gwaith o recriwtio staff.

Gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud mewn perthynas â hyfforddiant staff ers ein harolygiad blaenorol. Dywedodd uwch staff wrthym fod cryn ymdrech wedi cael ei gwneud dros y misoedd blaenorol i wella nifer y staff a oedd yn mynychu hyfforddiant gorfodol. Dangosodd gwybodaeth a ddarparwyd gan uwch staff fod cyfradd gydymffurfio o 82% wedi cael ei chyflawni ar y cyfan. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwelliant hwn yn parhau. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae angen gwella ymwybyddiaeth staff o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru (Diwygiedig 2016).

Roedd aelodau'r tîm amlddisgyblaeth y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol am fynediad at hyfforddiant i'w cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol ac i wneud eu swyddi. Ni chodwyd unrhyw bryderon gyda'r tîm arolygu am y trefniadau ar gyfer gwaith tîm amlddisgyblaeth.

Nododd ein hadolygiad o ffeiliau staff yn ein harolygiad diwethaf feysydd oedd angen eu gwella. Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau tri aelod o staff yn yr arolygiad hwn a chanfuom eu bod yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan. Canfuom, er bod tystiolaeth bod gwiriadau cyn cyflogaeth wedi cael eu cynnal yn ganolog gan adran Adnoddau Dynol y bwrdd iechyd, nad oedd unrhyw gadarnhad ysgrifenedig gan yr adran honno bod y gwiriadau hyn yn foddhaol. Esboniodd uwch staff y dylai neges e-bost fod wedi cael ei chadw yn ffeiliau'r staff yn cadarnhaol bod y gwiriadau'n foddhaol. Felly dylai'r bwrdd iechyd drefnu i sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn bob amser.

Gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud mewn perthynas â hyfforddiant staff ers ein harolygiad blaenorol. Roedd y cofnodion yn dangos nad oedd goruchwyllo staff yn cael ei gynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd

(bob mis ar gyfer staff cymwys). Yn ogystal, o'r tri chofnod y gwnaethom eu hadolygu, nid oeddem yn gallu canfod arfarniad cyfredol ar gyfer dau aelod o staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau:

- ***bod cofnodion gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cadw yn y ffeiliau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd***
- ***bod staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.***

5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Nhŷ Llywelyn yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesurrol, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- Yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cynwion
- Yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Ar gyfer gwasanaethau annibynnol, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu o achosion difrifol o dorri rheoliadau trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.⁵ Mae'r canfyddiadau hyn (lle y maent yn berthnasol) wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

⁵ Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

Atodiad A

Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Tŷ Llywelyn

Dyddiad yr Arolygiad: 5 – 7 Rhagfyr 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
7	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn rhoi diweddariad i AGIC am fynediad cleifion at wasanaethau meddyg teulu. Yn y cyfamser, rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau y gall cleifion fynd at feddyg teulu pan fydd angen.	1.1			
8	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn cadarnhau pa drefniadau a wnaed i gwblhau'r gwaith atgyweirio nad oedd wedi cael ei gyflawni ar ward Branwen a ward Pwyll yn foddhaol.	2.1			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
8	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn cadarnhau pa drefniadau sydd wedi cael eu gwneud i sicrhau bod tymheredd ward Gwion yn gyfforddus i gleifion bob amser.	2.1			
9	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r ddarpariaeth therapi galwedigaethol bresennol i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer gweithgareddau oddi ar y ward, gan gynnwys absenoldeb cymunedol penodedig.	6.1			
10	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn gwneud trefniadau i ddarparu dewis addas o brydau bwyd yn unol ag anghenion a dewisiadau cleifion.	2.5			
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
11	Mae angen gwella'r dogfennau yn ffeiliau Deddf Iechyd Meddwl cleifion i sicrhau eu bod yn gyflawn, wedi eu trefnu'n dda ac yn cyd-fynd â dogfennau yn ffeiliau wardiau'r cleifion.	3.5			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn rhoi diweddariad i AGIC ynglŷn â chynnydd wrth gefnogi staff i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Cod Ymarfer diwygiedig.	7.1			
12	Mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl i adlewyrchu'r cod diwygiedig.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd			
13	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn ddigon manwl. Mae hefyd yn ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o bolisïau a phrotocolau perthnasol a'u bod yn cadw atynt.	3.5, 6.1 a 7.1			
13	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn gwella golau allanol yng ngardd ward Pwyll i alluogi staff i weld cleifion yn rhwydd. Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys gwella'r goleuadau ar gyfer llwybrau gadael adeilad mewn tân.	2.1			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
14	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r trefniadau i gleifion alw am gymorth os bydd angen pan fyddant yn eu hystafelloedd gwely.	2.1			
14	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod staff yn gwybod yn union lle mae'r cyllyll a ffyrç sy'n cael eu defnyddio ar y wardiau.	2.1			
15	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau ystafelloedd gofal dwys yn Nhŷ Llewelyn i hyrwyddo diogelwch cleifion a staff.	2.1			
15	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn storio meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr uned ar dymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr ac i gadw cofnodion addas i ddangos hyn.	2.6			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
16	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu darpariaeth ei wasanaethau iechyd meddwl er	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	mwyn i gleifion dderbyn gofal yn y math o wasanaeth sydd fwyaf addas ar eu cyfer yn unol â'u hanghenion gofal.				
16	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn adolygu ei systemau llywodraethu i sicrhau bod materion ansawdd a diogelwch yn cael eu canfod a'u huwchgysfeirio'n brydlon er mwyn iddynt gael sylw ar unwaith.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd			
17	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn ymchwilio i wahanol strategaethau i hwyluso'r gwaith o recriwtio staff.	7.1			
18	Mae'n ofynnol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau: • bod cofnodion gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cadw yn y ffeiliau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd • bod staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	7.1			

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: